# Dan y Wenallt

**Mae'r testun hwn o** http://www.bbc.co.uk/education/guides/zps49j6/revision/2

Mae hi'n nos o wanwyn mewn pentref bach, heb na lleuad na seren i oleuo'r ffurfafen nac un troed i oedi'n y strydoedd ac mae gallt wargrwm y cwningod a'r cariadon fel ar herc anweledig. I lawr at y môr pygddu, dudew fel y fagddu. Clywch. Y nos sy'n ymsymud drwy'r strydoedd. Clywch. Ymdeiddgan urddasol y gwynt yn Heol y Brenin a Lôn Cregyn a'r halen yn drwch ar ei alaw.


© Hawlfraint BBC